

CYNHADLEDD PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU

19 a 20 Medi 2018

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Cymru

Mae cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru eleni'n digwydd yn lleoliad unigryw a llawn ysbrydoliaeth yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae'r gynhadledd yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr y byd amgylcheddol, ac yn gyfle i'r gymuned fioamrywiaeth yng Nghymru ystyried ein safle presennol ar adfer natur, tynnu sylw at weithredoedd allweddol ar gyfer y dyfodol; a chryfhau'r cysylltiadau â chynllunio llesiant.

Gan gynnwys araith Weinidogol gan y Gweinidog Amgylchedd Hannah Blythyn AC, siaradwyr allweddol, sgysiaau a gweithdai gan ymarferwyr, mae'r gynhadledd yn offeryn hanfodol wrth ystyried uchelgais Cymru i wella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau yng Nghymru ac yn gyfle i ddatblygu gweithredu adfer natur ar y cyd â mentrau polisi ehangach. Mae sesiynau rhyngweithio a chyfleoedd i gydweithio a chreu partneriaethau i'r dyfodol yn thema ganolog o'r digwyddiad hwn.

Mae gan Gymru ddeddfwriaeth unigryw ar gyfer darparu adfer natur a manteision lluosog ar gyfer ein hamgylchedd, economi a chymdeithas. Mae Cynllun Gweithredu Adfer Natur i Gymru, Deddf Amgylchedd (Cymru) a diwygio rheoli tir ar ôl Brexit oll yn ganolog i'r dull hwn o fynd ati. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau wrth gyflawni buddion lluosog i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy gyfrwng cynllunio llesiant, a ddylai gael ei adlewyrchu yn ein dull newydd o fynd ati. Mae'r dull hwn'n amlinellu'r cyswllt rhwng amgylchedd, iechyd a llesiant, a'r cyfleoedd a'r heriau y dylem ni fynd i'r afael â nhw drwy gyfrwng cynlluniau a gweithredoedd mawr a bach.

Pwy ddylai fynychu?

Mae croeso i unrhyw un â diddordeb mewn bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru fynychu i drafod, rhannu syniadau a chydweithio. Mae'r gynhadledd yn arbennig o ddefnyddiol i gynrychiolwyr bioamrywiaeth a chadwraeth, cyrff amgylcheddol statudol, cynrychiolwyr academiaidd, cynrychiolwyr o'r byd amaeth a choedwigaeth, cynrychiolwyr iechyd a llesiant, awdurdodau lleol, partneriaethau natur lleol, canolfannau cofnodi amgylcheddol lleol a chofnodwyr bywyd gwyllt, sefydliadau amgylcheddol y drydedd sector a grwpiau gwirfoddol a sefydliadau amgylcheddol sector preifat

GWYBODAETH ARCHEBU

Archebwch le nawr ar www.biodiversitywales.org.uk
Gall cynadleddwyr fynychu ar y naill ddiwrnod neu'r llall, neu'r ddau ddydd. Awgrymir archebu'n gynnar am fod lleoedd yn gyfyngedig.

DIGWYDDIAD RHAD AC AM DDIM

Cynllunio eich ymweliad: Rhaid i gynadleddwyr archebu llety'n annibynnol.

Mwy o wybodaeth yma.

EWCH I WEFAN PBC I GAEL DIWEDDARIADAU AM Y GYNHADLEDD

RHAGLEN DDRAFFT CYNHADLEDD PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU

DIWRNOD CYNTAF: 19 Medi

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Cymru

Cofrestru o 8:30, croeso i ddiwrnod 1 10:00

Sesiwn foreol o araith allweddol, sgysiau llawn ac araith Weinidogol

- Araith allweddol – i'w chyhoeddi'n ddiweddarach
- Sgysiau llawn - Manylion pellach i'w cyhoeddi'n ddiweddarach
- Diweddariad polisi – Llywodraeth Cymru
- Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC

Saib cysur

- Prosiect Rhostir Powys (i'w gadarnhau)
- Prosiect Moroedd Byw, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt
- Rhaglen gadwraeth ar gyfer planhigion âr, Plantlife (i'w gadarnhau)

Cinio

Cynigir detholiad o weithdai a thrafodaethau agored gan gynnwys Datganiadau Ardal; Adran 6 datblygu fframwaith gofnodi'r Rhaglen Anghenion Tystiolaeth ac Ymchwil Bioamrywiaeth ac Ecosystem (BEERN); Blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer cadwraeth ym myd planhigion âr; a thaith maes

Lluniaeth ysgafn

Cyfes o sgysiau llawn ac araith glo

- Adroddiad B-Lines a Gwenyn Cymru dan Fygythiad – Buglife (i'w gadarnhau)
- Dangosydd Gloÿnnod i Gymru – Cadwraeth Gloÿnnod
- Dathlu prosiectau LIFE – Cyfoeth Naturiol Cymru

Ymunwch â ni mewn DERBYNIAD RHWYDWEITHIO GYDA'R HWYR yn yr Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o 5.30. Darperir canapes a diodydd (codir tâl am ddiodydd alcoholig)

AIL DDIWRNOD: 20 Medi

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, Cymru

Cofrestru o 8:30, croeso i ddiwrnod 2 9:20

Sesiwn foreol yn cychwyn ag araith allweddol a sgysiau llawn

- Araith allweddol – areithiwr i'w gyhoeddi'n ddiweddarach
- Sgysiau Bioamrywiaeth ac iechyd – manylion pellach i'w cyhoeddi'n ddiweddarach

Lluniaeth ysgafn

Cynigir detholiad o weithdai a thrafodaethau agored gan gynnwys Datganiadau Ardal; Denu ac Ymwneud; Gwarchod bywyd gwylt drwy gyfrwng Cynllun Awyr Lân Cymru (i'w gadarnhau), a thaith maes

Cinio

Sesiwn y prynhawn gyda sgysiau llawn a rhagor

- Dylanwad daeareg ar fioamrywiaeth Bannau Brycheiniog, Alan Bowring, Geoparc Fforest Fawr
- Prosiect Fforest Hir
- Manylion pellach i'w cyhoeddi'n ddiweddarach

Gorffen 15.15

Cyfleoedd i ymuno a theithiau tu ôl i'r llenni o gwmpas yr amgueddfa, ymweld â stondinau arddangos, sesiynau poster a rhagor.

Ewch i wefan PBC am ddiweddariadau i'r rhaglen

**Nodwch os gwelwch yn dda y gall y rhaglen newid heb rybudd
Fersiwn 1 20/07/2018**